CLWB CYMRU

# DEFNYDDIO TECHNOLEG I GEFNOGI YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED

**Mae amser yn werthfawr, ac mae pobl yn rhoi gwerth enfawr ar eu hamser eu hunain - mae technoleg wedi caniatáu i ni reoli hynny.** Drwy gael y gallu i gael gafael ar wybodaeth yn gyflym, a galluogi ymgysylltu a sgwrsio ar amser a dyddiad sydd fwyaf cyfleus iddynt, mae'n gwneud pobl yn dod at ei gilydd yn fwy effeithlon ac effeithiol. Mae Covid-19 wedi chwarae rhan ddefnyddiol yn y defnydd o dechnoleg ar gyfer ymgysylltu digidol ac mewn sawl achos mae wedi galluogi'r defnyddiwr newydd i gynyddu ei hyder a dod yn fwy cysylltiedig.

Mae'r dull hwn o ymgysylltu â'r gymuned yn dechrau disodli'r ffyrdd mwy traddodiadol o gysylltu ag unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau, nid yn unig oherwydd cyflymder y cysylltu a'r rhannu gwybodaeth ond hefyd oherwydd y pŵer y gall ei gael wrth gyrraedd cynulleidfa fwy amrywiol ac ehangach.

Bydd edrych ar yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir ymgysylltu â'r gymuned yn ddigidol yn helpu i gyflwyno ffyrdd modern a chyffrous i chi o gysylltu â chynulleidfaoedd newydd a phresennol.

**Mae llawer o fanteision i'ch clwb o edrych ar ymgysylltu drwy dechnoleg a dyma rai o'r rhesymau pam;**

1. **Bod yn fwy hygyrch**
   Gydag ymgysylltu ar-lein, gall rhyngweithio a chysylltu ddigwydd heb i bobl orfod gadael eu cartref. Gall y dull hwn gefnogi'n gadarnhaol y rheini o gymunedau mwy gwledig yng Nghymru, lle gallai teithio ar gyfer cyfarfod wyneb yn wyneb fod yn fwy heriol, yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n ymgymryd â swyddogaethau y tu allan i'r 9 tan 5 traddodiadol fel ffermio neu'r rhai sy'n gweithio i'r gwasanaethau brys.

2. **Denu cynulleidfaoedd newydd**
   Gall manteisio i'r eithaf ar ffyrdd modern o gysylltu a chydweithio gefnogi'r clwb i ddenu pobl iau. Yn draddodiadol, nid yw aelodau iau'r gymuned bob amser wedi rhannu eu barn ar brosiect neu fenter benodol, er eu bod yn cael eu hystyried fel y genhedlaeth fwyaf cyfrifol yn ddigidol. Efallai y bydd dull ymgysylltu ar-lein yn denu cyfranogiad a chefnogaeth wrth gasglu barn pobl iau.

3. **Gwybodaeth ar flaen bysedd eich cymuned**
   Mae cael gwybodaeth ar gael yn rhwydd ar-lein yn galluogi unrhyw un i ddarllen gweledigaeth, cynlluniau a chynnydd y clwb. Mae hefyd yn dangos eich tryloywder. Cofiwch ddiweddaru gwybodaeth yn rheolaidd ar draws pob platfform. Gallai gwybodaeth wedi dyddio neu fylchau mewn cyfathrebu arwain at y gymuned yn teimlo nad yw mewn cysylltiad ac wedi ymddieithrio o'ch clwb.

4. **Cost-effeithlon**
   Gall cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb fod yn gostus. Boed yn llogi neuadd y pentref lleol neu'n darparu lluniaeth ac, yn dibynnu ar sawl gwaith rydych chi eisiau dod â'r gymuned at ei gilydd, mae'r treuliau'n cynyddu'n gyflym. Mae dulliau digidol yn rhatach ar y cyfan a gallent arbed arian i'r clwb.

5. **Clwb mwy cynaliadwy**
   Gall cynnal digwyddiadau ar-lein yn hytrach na gofyn i bobl deithio i un lle ddangos yn gadarnhaol eich cyfraniad at fod yn glwb gwyrddach a mwy cynaliadwy.

## Cofiwch

Nid oes gan bawb bresenoldeb digidol a bydd rhai unigolion, grwpiau cymunedol a hyd yn oed sefydliadau nad ydynt yn ymgysylltu drwy dechnoleg. Mae'n bwysig cydnabod hyn a, lle bo hynny'n bosibl, edrych ar gyfuniad o ddulliau digidol a thraddodiadol. Meddyliwch sut gallech chi gyfuno'r ddau a sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys.

**Cyn i chi ddechrau archwilio technoleg i gefnogi eich ymgysylltu, mae ychydig o ffactorau pwysig i'w hystyried;**

## Pam ydych chi'n ymgysylltu?

- Beth yw eich rheswm / rhesymu?
- A yw'n glir beth rydych chi eisiau ei gael gan y gymuned?

## Pwy yw eich cynulleidfa?

- Gyda phwy ydych chi eisiau cysylltu?
- Sut maen nhw'n derbyn gwybodaeth yn y ffordd orau?
- Pwy sydd eisoes yn rhyngweithio â nhw?
- Oes unrhyw rwystrau i'w hystyried?
- Pwy o fewn eich cymuned all eich helpu chi?

## Pa adnoddau sydd gennych chi?

- Oes gennych chi'r sgiliau cywir yn y clwb?
- Oes cyllideb i'w chefnogi?
- Pwy o fewn eich cymuned all eich helpu chi?

## Sut ydych chi'n ymgysylltu?

- Sut byddwch chi'n ymgysylltu?
- Ydi eich ymgysylltu'n galluogi rhannu barn a meddyliau?
- Pa mor aml ydych chi'n cysylltu â'r gymuned?
- Sut ydych chi eisiau i'r gymuned deimlo ar ddiwedd yr ymgysylltu?

Unwaith y byddwch yn glir ynghylch eich gweledigaeth a'ch pwrpas a gyda phwy rydych eisiau ymgysylltu o'ch cymuned, gallwch ddechrau dorri drwy'r gwahanol lefelau ymgysylltu digidol, gan ddewis tactegau ac atebion technolegol ar gyfer pob un, gan eich helpu chi i ymgysylltu'n ystyrlon.

## Hysbysu

Mae'n bwysig dechrau gyda hysbysu'ch aelodau, grwpiau cymunedol a sefydliadau ynghylch pa brosiectau neu fentrau rydych chi'n eu hystyried ond, yn bwysicach fyth, pam. Byddwch yn glir ynghylch eich pam a'r pwrpas cyffredin. Bydd y budd i'r gymuned ehangach yn eich helpu i gysylltu'r clwb, y prosiect neu'r fenter â'r gymuned.

Gallai hyn fod ar ffurf cyflwyniad ar-lein. Naill ai'n cael ei gyflwyno'n fyw neu wedi'i recordio ymlaen llaw gyda'r recordiad wedyn yn cael ei gadw ar wefan y clwb. Gallech wahodd meddyliau a safbwyntiau i gael eu rhannu drwy swyddogaeth sgwrsio neu adran sylwadau ar eich gwefan.

Efallai yr hoffech chi gofnodi'r hyn mae'r clwb yn ei wneud mewn fideo bach. Mae adrodd straeon yn ffordd wych o gyfleu'ch negeseuon. Gallent gael eu hadrodd gan aelodau'r clwb, gwirfoddolwyr a hyd yn oed rhanddeiliaid presennol sydd eisoes wedi'u cysylltu â'r clwb.

Gallai fod yn syml drwy'r dulliau digidol mwy 'traddodiadol' fel e-byst, cylchlythyrau, a negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae hysbysu'r gymuned yn dangos eich bod yn atebol am yr hyn rydych chi'n ei wneud ac, yn bwysicach fyth, eich bod eisiau iddyn nhw gymryd rhan.

## Ymgynghori

Drwy ymgynghori â'ch cymuned, rydych chi'n dangos yn gadarnhaol eich bod chi eisiau sicrhau gwell dealltwriaeth o'u hanghenion, eu meddyliau a'u safbwyntiau a gellir gwneud hyn yn ddigidol.

Gallai hyn fod ar ffurf cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich clwb yn cael eu hagor ar gyfer sylwadau lle gall pobl rannu eu meddyliau ond hefyd fod yn barod i ateb cwestiynau a ofynnir. Efallai hyd yn oed y byddwch eisiau neilltuo peth amser ar eich platfform cyfryngau cymdeithasol ar gyfer 'sesiwn gofyn unrhyw beth' byw lle bydd aelodau pwyllgor neu weithgorau ar gael am gyfnod penodol o amser i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bobl am eich clwb, prosiect penodol neu menter.

Mae grwpiau ffocws ar-lein yn ddatrysiad digidol gwych arall. Ystyriwch sut byddwch yn rheoli cwestiynau a ofynnir. Efallai yr hoffech i gwestiynau gael eu cyflwyno cyn y sesiwn byw, neu efallai y byddwch chi'n penderfynu cael aelodau'r clwb i fonitro ac ymateb o fewn swyddogaethau sgwrsio'r platfform.

## Cynnwys

Mae cadw'r gymuned yn rhan o gynnydd y clwb neu'r prosiect / fenter yn bwysig ond gall cynnwys ymwneud estynedig wrth wneud penderfyniadau a meithrin perthnasoedd ddyfnhau'r cysylltiad rhwng y gymuned a'r clwb. Yn bwysicach fyth, mae'n dangos mai clwb i'r gymuned yw'r clwb ac nid clwb yn y gymuned.

Gallwch gynnwys y gymuned drwy bolau neu arolygon ar-lein. Mae platfformau fel SurveyMonkey neu Google Forms yn galluogi i chi gasglu meddyliau a safbwyntiau ar raddfa lawer mwy. Mae rhai platfformau'n cynnig gwasanaethau ychwanegol a all eich galluogi i grynhoi a chyflwyno'r wybodaeth mewn tablau a graffiau.

Efallai y bydd cynlluniau prosiect, mapiau safle neu ddelweddau digidol y gallwch eu dangos i'r gymuned, i'w helpu i ddarlunio'r canlyniad terfynol a'u cadw'n teimlo'n rhan o'r siwrnai.

## Cydweithredu

Gall ymuno ag aelodau, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid ddigwydd yn effeithlon ac yn effeithiol drwy weithdai ar-lein wedi'u hwyluso. Trefnwch gyfleoedd ar gyfer trafodaethau a thasgau llai, gwella ymgysylltu a chofnodi meddyliau a safbwyntiau dyfnach.

Yn ystod y mathau hyn o sesiynau ar-lein, mae deialog agored a pharhaus yn allweddol ac yn rhan fawr o gydweithredu. Gellir creu hyn yn y gweithdai neu drwy fforymau fel y soniwyd yn flaenorol.

## Grymuso

Mae'r holl gysyniadau a syniadau hyn yn helpu i ddechrau dangos i'ch aelodau, y gymuned ehangach, rhanddeiliaid a sefydliadau eich bod eisiau iddynt helpu i ddylanwadu ar eich ffordd o feddwl, fel bod y gymuned wrth wraidd unrhyw ddatblygiad / menter.

Mae defnyddio technoleg i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach, a chynnwys eraill nad oeddent efallai'n rhan o'r ymgysylltu ar y cyd o'r blaen, yn dangos yn gadarnhaol eich dealltwriaeth o fywyd modern ond, yn bwysicach fyth, eich bod eisiau i'ch clwb fod yn amrywiol ac yn gwbl gynrychioliadol o'r gymuned leol.

Bydd darparu platfform i bobl sy'n galluogi iddynt fynegi eu meddyliau a'u barn nid yn unig yn rhoi ffyrdd newydd i chi feddwl ac edrych ar bethau, ond hefyd yn eu grymuso i barhau i fod yn rhan o siwrnai'r clwb.

## Cyngor doeth ar sut i ymgysylltu orau â'ch rhanddeiliaid a chael eu sylw

Nawr bod gennych chi well dealltwriaeth o sut i ymgysylltu'n ddigidol ac o'r gwahanol ddulliau ac atebion technolegol sydd ar gael, ceisiwch roi'r pedwar cyngor doeth yma ar waith yn eich ymgysylltu.

1. **Adnabod eich cynulleidfa**
   Os oes gennych chi gynulleidfa mewn golwg, bydd eich cymuned yn helaeth ond os byddwch chi'n penderfynu gyda phwy rydych chi eisiau ymgysylltu, gallwch chi wedyn benderfynu ar y ffordd orau i gysylltu â hwy. Ceisiwch ganfod sut maen nhw'n ymgysylltu orau ar-lein a chanolbwyntio ar hyn. Peidiwch â cheisio cynllunio'ch ymgysylltu ar gyfer pawb. Cynlluniwch ar gyfer cynulleidfaoedd penodol.

2. **Saith Eiliad**
   Mae pobl yn eithriadol brysur ac, yn ôl y sôn, os na fyddwch chi'n hawlio sylw rhywun mewn saith eiliad, efallai y byddwch wedi colli'r foment ac y bydd angen i chi roi cynnig arall arni yn nes ymlaen. Sut gallwch chi sicrhau bod teitl eich e-bost yn denu sylw pobl? Sut gallwch chi sicrhau bod eich neges ar gyfryngau cymdeithasol yn uniongyrchol ac i'r pwynt?

3. **Saith Munud**
   Yn ôl y sôn, dim ond am saith munud y cewch chi sylw rhywun fel rheol. Cynlluniwch eich ymgysylltu i sicrhau ei fod yn fyr, yn glir ac yn gryno. Os oes angen i chi ryngweithio â chymunedau am gyfnod hirach, ceisiwch rannu'ch ymgysylltu'n adrannau o 7 munud. Efallai y bydd hyn yn gweithio'n dda pan fyddwch chi'n cynnal fforwm agored neu weithdy.

4. **Delweddau**
   Yn ôl y sôn mae un llun yn gallu darlunio mil o eiriau. Mae lluniau a ffeithluniau'n helpu i adrodd stori yn gyflym ac yn glir. Maent hefyd yn fwy cofiadwy felly ewch ati i'w defnyddio bob tro mae hynny'n bosib.

## Cofiwch

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn broses dwy ffordd ac efallai y byddwch yn dechrau cymryd rhan mewn ymgysylltu â'r gymuned drwy unigolion, grwpiau a sefydliadau eraill sydd eisiau i chi gyfrannu eich meddyliau a'ch syniadau. Efallai y bydd pobl yn rhyngweithio â chi, mewn rhai o'r ffyrdd rydyn ni wedi'u trafod yma. Os byddwch chi ryw dro mewn fforwm trafod ar-lein neu'n cwblhau arolwg barn am brosiect neu fenter leol arall, rhowch amser i adlewyrchu ar y broses a dod ag unrhyw ddysgu / profiadau a allai fod o fudd i'r clwb yn eich barn chi yn eu hôl.